# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 2il Rhagfyr 2018
am 7.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor, Caredig Jones(Cadeirydd), Dewi Rattray, Ada Evans, Meic Francis, Dylan Edwards, John Davies, Meirion Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Rowland Jones, Richard Davies.

Rhoddwyd croeso i gyfarfod Mis Rhagfyr gan y Cadeirydd Caredig Jones. Diolchwyd i bawb am helpu yn ystod Noson Goleuo'r Goeden. Braf oedd gweld gymaint o aelodau'r gymuned yn dod i gefnogi, rhaid dweud roedd yn noson _ iawn. Hefyd rhoddwyd diolch i'r busnesau lleol oedd wedi rhoi cymorth nwyddau am y noson, megis Morrison Aberystwyth, Tesco Aberystwyth a hefyd Keith Falcon Inn Llanilar. 'Last but not least' diolch arbennig i Sïon Corn am fynychu'r noson eleni eto yn enwedig yn ystod amser prysur iawn o'r flwyddyn!!

Dachraeodd y cyfarfod 7 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Tachwedd, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Ann Tudor.ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray

18/1056 - MATERION YN CODI

1. Nid oedd unrhyw materion yn codi

18/1057 - LLYTHYRON

1. Llythyr oddiwrth y Ddolen yn ofyn am gymorth ariannol eleni. Penderfynwyd rhoi rhodd o £100. Cynigwyd gan y cynghorydd Dylan Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis. Roedd pawb yn gytûn. .
2. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis.

18/1058 – ARIANNOL

1. Cyflog y clerc ar gyfer Miss Rhagfyr, £133.46. Cynnigwyd gan y cynghorydd Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.
2. Llog ystafell yr hen ysgol, cyfanswm o £30.00. Cynnigwyd gan y cynghorydd Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor
3. Cais wrth Y Ddolen yn ofyn am help Ariannol eleni eto. Ar ol drafod fe penderfynnwyd rhoi £100 at yr achos. Cynnigwyd gan y cynghorydd Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.
4. PAYE – Cynnigwyd gan y cynghorydd Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.

18/1059 – CYNLLUNIO

Nid oes unrhyw cais wedi dderbyn

18/1060 - UNRHYW FATER ARALL

1. Nodwyd fod cyflwr wael ar llawr yr hen ysgol. Ofynnwyd i'r Clerc edrych i mewn i hyn yn bellach.

Orffennwyd y cyfarfod am 8y.h.